IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD MERCHER, 12 AWST 2020

Yn bresenol: Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)

Cynghorwyr Bowen-Thomson a/ac Kelloway

1 : DATGAN BUDDIANNAU

2 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - GREEK VILLAGE, STRYD CAROLINE

Ymgeisydd: cynrychiolwyd gan Stewart Gibson a Dominique Mould

Awdurdodau Cyfrifol: Tony Bowley, Heddlu De Cymru
Rhys Morgan, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

Cais

Daeth cais am Drwydded Safle i law gan Souvlike Ltd mewn perthynas â Greek Village, 21 Stryd Caroline, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

1 Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle

2 Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Mae'r safle'n masnachu fel bwyty a thecawê".

3 Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.
Dydd Llun i Ddydd Sul: 11:00 i 23:30

4 Cynnal gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle: Dydd Llun i Ddydd Sul: 11:00 i 23:00

Atodwyd map sy'n dangos y safle a chynllun o'r safle hwnnw i'r adroddiad yn Atodiad A.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynwyd y cais gan Stewart Gibson. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cais gwreiddiol yn ceisio oriau agor hwy ond bod yr ymgeisydd wedi cytuno i gwtogi'r oriau hyn wedi siarad â Heddlu De Cymru.
Yr oriau diwygiedig yw:

Oriau ar agor i'r cyhoedd Dydd Llun – Dydd Sul 11:00 – 23:00

Gwerthu alcohol Dydd Llun - Dydd Sul 11:00 – 22:30

Derbyniwyd yr amodau ychwanegol canlynol gan ymgeisydd hefyd:

a. Derbyniwyd amod diwygiedig mewn perthynas â theledu cylch cyfyng. Fe welwch o adroddiad y swyddog ar dudalen 5 fod amodau helaeth mewn perthynas â theledu cylch cyfyng wedi'u cynnig, ond rydym wedi cytuno i ddiwygio'r rhain yn unol â'r geiriad a awgrymir yn amod 1 yr heddlu sydd i'w weld ar dudalen 7 adroddiad y swyddog.

b. Bydd llyfr digwyddiadau'n cael ei gadw ar y safle am gyfnod o 12 mis. Bydd ar gael ar gais i un o gyflogeion yr heddlu, a bydd yn cofnodi'r canlynol:

   Pob trosedd y mae'r lleoliad yn cael gwybod amdano
   Unrhyw gwynion a geir (o natur troseddu neu drwyddedu)
   Unrhyw ddigwyddiadau o anhrefn
   Unrhyw achos o wrthod gwerthu alcohol
   Unrhyw ymweliad gan gynrychiolydd awdurdod perthnasol neu aelod o'r gwasanaethau brys.
   Unrhyw fethiannau yn y system teledu cylch cyfyng.

   Er bod llyfr digwyddiadau wedi'i gynnig yn amod yn y cais, mae gan yr uchod fwy o fanylion ac rydym yn hapus ei dderbyn.

c. Ar ddiwrnodau a ystyrir yn ddiwrnodau digwyddiadau mawr yng Nghanol y Ddinas, h.y. digwyddiadau chwaraeon neu gyngherddau pop yn Stadiwm y Principality, dosberthir pob diod mewn cwpan nad yw'n wydr.

ch. Rydym wedi cytuno i eiriad diwygiedig yr amod sy'n gofyn bod cwsmeriaid yn gadael y safle'n dawel oherwydd agosrwydd lleol eiddo preswyl.

e. Dim ond gyda bwyd y caiff alcohol ei weini i bobl.

dd. Caiff gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle ei gyfyngu i ardal y cytunwyd arni gydag adran priffyrdd Cyngor Caerdydd; bydd yr ardal hon yn cau erbyn 21:00.

e. Ni chaniateir i blant nad ydynt yng nghwmni oedolyn fynd i mewn i'r safle trwyddedig ar ôl 21:00.

f. Ar ôl trafod gyda'r heddlu, rydym wedi cytuno, ar ddiwrnodau fel y disgrifir ym mhwynt c uchod, na fydd alcohol i'w yfed oddi ar y safle yn cael ei werthu yn ystod y diwrnod cyfan, nac ar y dyddiau y bydd y digwyddiad yn digwydd.

i. Yn ogystal â'r amodau y cytunwyd arnynt gan yr heddlu, (pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu), rydym yn cynnig amodau ychwanegol.

   Tywysir pob cwsmer i'w fwrdd gan aelod o staff wrth gyrraedd. Ni fydd cwsmeriaid yn dewis eu seddi eu hunain. Bydd yr holl fwyd yn cael ei weini gan weinyddion, oni bai bod bwydlen bwffe ar gael.

Dywedodd Mr Gibson hefyd fod Heddlu De Cymru wedi cytuno i dynnu dau amod a awgrymwyd yn eu llythyr gwreiddiol o gynrychiolaeth yn ôl yn dilyn ymgynghoriad. Er mwyn osgoi amheuaeth, amodau 6 ac 8 yw'r rhain mewn perthynas â'r ffaith y caiff yr holl alcohol a werthir oddi ar y safle ei weini mewn cwpanau nad ydynt yn wydr ac â staff drws yr ADD yn y drefn honno.

Dywedodd Mr Gibson mai'r pwynt allweddol i'r Aelodau ei ystyried oedd, o ganlyniad i'r ffaith bod yr ymgeisydd yn derbyn yr amodau uchod a'r mesurau ychwanegol a gynigir, nad ystyrir bod y safle bellach yn dod o fewn polisi effaith gronnol yr awdurdod.

Mewn perthynas â'r sylwadau a gafwyd gan Heddlu De Cymru, dywedodd Mr Gibson fod Heddlu De Cymru yn gwrthwynebu rhoi trwydded ar sail atal trosedd ac anhrefn ac amddiffyn plant rhag niwed. Roedd Heddlu De Cymru wedi cyflwyno ystadegau trosedd i gefnogi'r farn hon. Fodd bynnag, roedd y ffigurau a gyflwynwyd yn ymwneud â throseddau a gyflawnwyd rhwng 2100 a 0600 yng nghyffiniau'r safle.

Pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu, dim ond am 2 awr y byddai'r safle'n gweithredu yn ystod y cyfnod hwnnw. Ni roddwyd unrhyw amserlenni ond awgrymodd Mr Gibson y byddai'r rhan fwyaf o'r troseddau hynny wedi digwydd ar ddiwedd y cyfnod hwnnw o 9 awr yn oriau mân y bore, a pheth amser ar ôl i'r safle gau. Felly nid oedd rheswm dros awgrymu y byddai gweithredu'r safle hwn yn cael effaith negyddol ar drosedd ac anhrefn yn yr ardal ac na fyddai'r amcanion trwyddedu yn cael eu peryglu. At hynny, ni roddwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn mewn perthynas ag atal niwed i blant.

Dywedodd Mr Gibson mai bwyty oedd y safle a oedd yn gweithredu oriau cymedrol a'i fod yn ceisio gwerthu alcohol i gwsmeriaid sydd wedi archebu pryd o fwyd. Byddai pob cwsmer yn eistedd wrth fwrdd a byddai gweinydd yn ei weini. Roedd yr ymgeiswyr yn hapus i gymeradwyo'r mesurau ychwanegol y gofynnwyd amdanynt gan yr awdurdodau cyfrifol a byddent hefyd yn ymrwymo i weithio gyda'r awdurdod cyfrifol er budd y ddinas.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd yr ymgeiswyr nad oeddent ar hyn o bryd yn ceisio gwerthu alcohol drwy bartneriaid cyflenwi trydydd parti. Fodd bynnag, gellir ystyried hyn yn y dyfodol. Bu cais am werthu alcohol i’w yfed ar y palmant y tu allan i’r safle. Byddai hyn yn rhoi cyfle i gael nifer cyfyngedig o fyrddau y tu allan. Fodd bynnag, byddai angen caniatâd yr Awdurdod Priffyrdd cyn y gellid gweithredu hyn.

Dywedodd Tony Bowley ei bod yn anarferol yn ei brofiad ef i'r ymgeisydd beidio â bod yn bresennol i ateb cwestiynau ynghylch gweithrediad ei safle.

<u>Sylwadau’r Awdurdod Cyfrifol</u>

Siaradodd Tony Bowley ger bron yr Is Bwyllgor ar ran Heddlu De Cymru. Dywedodd Mr Bowley nad oedd unrhyw ymgynghori ymlaen llaw rhwng Heddlu De Cymru a'r ymgeisydd cyn derbyn y cais. Roedd Mr Bowley o'r farn bod yr ymgeisydd wedi methu â chymryd camau i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn y cais ac nac ystyriwyd i Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r awdurdod chwaith.

Roedd Mr Bowley o'r farn bod Mr Gibson yn gywir wrth dynnu sylw at y ffaith mai dim ond dwy awr olaf gweithredu'r safle yr oedd yr ystadegyn trosedd a gyflwynwyd yn ymwneud â nhw. Fodd bynnag, roedd Mr Bowley o'r farn bod cwsmeriaid y safle yn debygol o aros yng nghanol y ddinas ar ôl bwyta ac y byddent yn cyfrannu yn y pen draw at yr effaith gronnol negyddol yn yr ardal. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai penwythnos 8 a 9 Awst 2020 oedd y prysuraf erioed o ran digwyddiadau yng Nghanol y Ddinas a adroddwyd i Heddlu De Cymru.

Derbyniodd Mr Bowley fod y safle bellach wedi'i raddio'n 'ambr' ar ôl derbyn amodau ychwanegol ac felly nad oedd bellach yn dod dan y polisi effaith gronnol. Fodd bynnag, derbyniwyd yr amodau ychwanegol ar y funud olaf.

Gofynnodd Mr Bowley i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau. Gofynnwyd i Mr Bowley gadarnhau a oedd unrhyw adroddiadau am droseddau yn gysylltiedig â'r safle penodol hwn ers iddo agor ym mis Medi 2019. Dywedodd Mr Bowley nad oedd unrhyw adroddiadau ond na werthir alcohol ar y safle ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, mae gan safleoedd nad ydynt yn gwerthu alcohol lai o achosion o droseddu ac anhrefn.

Gofynnodd Aelod a oedd Mr Bowley o'r farn y byddai pobl yn dod i ganol y ddinas gyda'r unig ddiben o fynd i’r safleoedd hyn cyn mynd i safleoedd eraill. Dywedodd Mr Bowley fod pobl yn dod i ganol y ddinas am amrywiaeth o resymau gwahanol. Mae cydberthynas rhwng nifer y mannau lle mae alcohol ar gael a faint o drosedd ac anhrefn sydd mewn ardal.

Dywedodd Rhys Morgan o'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir fod gan y safle drwydded yn barod. Gofynnwyd i Mr Gibson a fyddai'r ymgeisydd yn barod i dderbyn amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r drwydded honno gael ei hildio. Cytunodd Mr Gibson y byddai amod o'r fath yn dderbyniol. Fodd bynnag, atgoffodd Dan Cook o Drwyddedu Caerdydd Aelodau'r Is-bwyllgor mai cwmni arall sy'n meddu ar y drwydded bresennol ac y byddai amod o'r fath yn gofyn am drosglwyddo'r drwydded i'r ymgeisydd cyn y gellid ei hildio. Nid oes rhaid i ddeiliad presennol y drwydded wneud hyn.

Dywedodd Mr Morgan fod yr ymgeisydd wedi derbyn amodau fel rhan o'i atodlen weithredu y byddai eu hangen dan Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r awdurdod. Nid yw'r polisi effaith gronnol yn berthnasol mwyach ac felly mae hyn yn ddigon i'r awdurdod dynnu ei wrthwynebiad yn ôl.

Gwahoddwyd pob parti i grynhoi.

Dywedodd Mr Bowley ei bod yn anarferol yn ei brofiad ef i'r ymgeisydd beidio â bod yn bresennol yn ystod y gwrandawiad i ateb cwestiynau ynghylch gweithrediad y safle. Rhoddwyd tystiolaeth o drosedd ac anhrefn yn yr ardaloedd ac ar y sail honno gofynnwyd i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Dywedodd Mr Gibson fod Heddlu De Cymru wedi rhoi'r argraff nad oedd y cais gwreiddiol yn mynd i'r afael â'r amcanion trwyddedu. Roedd hyn yn anghywir gan fod llu o amodau wedi'u cynnig o'r cychwyn cyntaf. Ychwanegwyd a derbyniwyd yr

amodau ychwanegol er mwyn i'r safle gydymffurfio â'r polisi. Gwahoddwyd yr Is-bwyllgor i ganiatáu'r cais felly.

PENDERFYNWYD - Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, GYMERADWYO'r cais am drwydded safle, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt.

Clywodd yr Is-bwyllgor gan yr ymgeisydd a gwrandawodd ar yr holl dystiolaeth a chyflwyniadau ac ystyriodd y deunydd ysgrifenedig. Hefyd ystyriodd yr Aelodau Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a'r Datganiad Polisi Trwyddedu.

Clywodd yr Aelodau sylwadau hefyd gan Heddlu De Cymru a'r Awdurdod Trwyddedu, ac ystyriodd yr holl sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd.

Mae'r safle mewn ardal a gwmpesir gan Bolisi Effaith Gronnol sy'n creu'r rhagdybiaeth wrthbrofadwy y bydd unrhyw geisiadau newydd neu wedi'u hamrywio am Drwyddedau Safle yn cael eu gwrthod neu eu cyfyngu oni bai y gall yr ymgeisydd ddangos yn llwyddiannus na fydd rhoi'r cais yn ychwanegu at yr effaith gronnol yn yr ardal. Cytunodd yr Is-bwyllgor y byddai'r Polisi Effaith Gronnol yn berthnasol i'r cais cychwynnol. Fodd bynnag, yn dilyn y cyflwyniad ar 6 Awst 2020, gan gytuno i fabwysiadu mesurau ychwanegol, mae'r safle'n symud o gategori 'coch' i gategori 'ambr' y Polisi Effaith Gronnol.

Nododd yr Is-bwyllgor fod yr ymgeisydd yn fodlon derbyn amodau cynrychiolaeth Heddlu De Cymru yn Atodiad C yr adroddiad a'r mesurau ychwanegol.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd wedi dangos yn llwyddiannus na fyddai'r cais hwn yn ychwanegu at yr effaith gronnol negyddol yn yr ardal ac nad yw'r cais hwn yn cael effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

Cytunodd yr Is-bwyllgor i ganiatáu gwerthu alcohol, fel rhan o bryd o fwyd, gan gludwr trydydd parti. Pan gaiff alcohol ei ddanfon gan gludwr trydydd parti, bydd deiliad y drwydded yn nodi bod angen llofnod oedolyn neu gopi o dystiolaeth ffotograffig ar gyfer pob danfoniad. Bydd y cludwr yn cael llofnod y derbynnydd sy'n oedolyn neu gopi o dystiolaeth ffotograffig ac yn rhoi copi wedi'i argraffu neu gopi electronig i ddeiliad y drwydded. Rhaid i dderbynwyr fod yn 18 oed neu hŷn.

Gofynnodd yr Is-bwyllgor i'r ymgeisydd wneud pob ymdrech i drosglwyddo'r drwydded bresennol (CCCP00962) ac ildio'r drwydded wedi i'r Drwydded Safle newydd gael ei rhoi.

3 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35 am